



Ymgorffori Partneriaeth Gymdeithasol yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

Yn 2024-25, cychwynnodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ar broses o newid diwylliannol sylweddol, gan symud i ffordd wirioneddol gydweithredol o weithio, sydd wedi'i gwreiddio yn egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol.

Gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) mewn cof, aeth y sefydliad ati i ymgorffori cydgynhyrchu, tryloywder ac ymddiriedaeth i'w harferion bob dydd.

Digwyddodd y newid hwn trwy weithredu bwriadol ar y cyd. Cydweithiodd DHCW â staff, undebau llafur a rhanddeiliaid i gyd-gynhyrchu ei Ddatganiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu lleisiau'r rhai sy'n darparu ac yn profi ei wasanaethau. Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol wedi'i gwau'n uniongyrchol i strwythurau llywodraethu, gan wneud cydweithredu yn ddisgwyliad craidd yn hytrach na dewis. Daeth cyfarfodydd wythnosol gydag undebau llafur yn fforwm dibynadwy ar gyfer deialog agored, tra bod lleoedd diogel newydd fel TENTalks yn annog staff i siarad yn onest am eu profiadau a dylanwadu ar benderfyniadau sefydliadol.

"Mae Partneriaeth Gymdeithasol wedi'i seilio ar ein gwerthoedd o uniondeb, cydweithredu ac arloesedd yn DHCW. Trwy ymddiriedaeth a chynhwysiant, rydym yn cyd-greu atebion teg, blaengar sy'n grymuso ein pobl, yn cryfhau perthnasoedd, ac yn cyflawni canlyniadau tosturiol sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n cyd-fynd â'n pwrpas a rennir."

Sarah Brooks, Pennaeth Strategaeth Diwylliant a Phobl.

Daeth y canlyniadau i'r amlwg yn fuan. Cynyddodd cyfranogiad yn yr arolwg staff o 60.5% i 62.5%, sy'n arwydd o hyder cynyddol bod lleisiau staff yn cael eu clywed. Cafodd 87% o arfarniadau eu cwblhau, gan ragori ar dargedau cenedlaethol, a chynyddodd cydymffurfiaeth â hyfforddiant amrywiaeth i 99%. Arhosodd trosiant staff yn gyson ar 8.6%, gyda chefnogaeth cynllunio gweithlu mwy strategol. Cynyddodd cynrychiolaeth ac aelodaeth yr undebau hefyd, gan adlewyrchu perthnasoedd ac ymddiriedaeth gryfach.

"Yn DHCW, mae ein hymrwymiad cadarn i Bartneriaeth Gymdeithasol yn grymuso ein tîm i lunio gweithle teg a chynhwysol ar y cyd. Mae'r ymroddiad hwn yn meithrin arloesedd, yn adeiladu ymddiriedaeth ac yn sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi."

Paul Evans, Aelod Cyswllt ar y Bwrdd sy'n cynrychioli'r Undebau Llafur.

Cafodd llawer o'r cynnydd hwn ei yrru gan fentrau a ddaeth â phobl at ei gilydd mewn ffyrdd ystyrlon. Ymgysylltodd mwy na 350 o staff â TENTalks ar Wrthfwlio ac Aflonyddu a wnaeth hefyd lywio diweddariadau polisi yn uniongyrchol. Mae'r Rhwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi tynnu sylw at leisiau amrywiol a helpu i lunio arferion mwy cynhwysol. Mae fframweithiau cyd-gynhyrchu wedi meithrin diogelwch seicolegol ac agored, gan adeiladu diwylliant lle roedd staff yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu'n onest ac yn adeiladol.